Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Anabledd a chyflogaeth

## Crynodeb interim o'r gwaith ymgysylltu

Dydd Llun 30 Medi 2024

## Y cefndir

**1.** Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i 'Anabledd a Chyflogaeth', cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, a oedd yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda phobl anabl o bob rhan o Gymru.

**2.** Mae'r papur crynodeb interim hwn yn seiliedig ar gyfraniadau a wnaed yn ystod pedwar cyfarfod grŵp ffocws a chyfweliad un-i-un a oedd yn cynnwys cyfanswm o 32 o gyfranwyr ar draws pum rhanbarth y Senedd, a hynny ddydd Mawrth, 20 Awst 2024.

**3.** Mae grwpiau ffocws ychwanegol yn cael eu trefnu. Bydd papur yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg ar draws y rhaglen ymgysylltu lawn ar gael ar gyfer y Pwyllgor cyn ei sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog.

## Cyfranwyr

**4.** Er bod mwyafrif y cyfranwyr yn anabl, roedd nifer fach o gyfranwyr yn cymryd rhan yn rhinwedd eu gwaith fel staff proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl anabl, er bod gan lawer ohonynt anableddau eu hunain hefyd . Fe wnaethant helpu i hwyluso'r drafodaeth a chefnogi cyfranwyr i gyfrannu.

**5.** Roedd cyfansoddiad y cyfranwyr yn amrywio ac yn cynnwys pobl ag anawsterau dysgu, anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl, namau synhwyraidd, namau corfforol a chyflyrau niwroamrywiol.

**6.** Roedd statws cyflogaeth cyfranwyr yn amrywio hefyd, gyda chyfranwyr yn gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector; cyfranwyr â chontractau cyflogaeth gwahanol gan gynnwys contractau amser llawn, contractau rhan-amser a chontractau dim oriau; cyfranwyr a oedd yn hunangyflogedig, yn ddi-waith, ar fudd-daliadau a chyda rhagor nag un rôl wirfoddol.

**7.** Daethpwyd o hyd i'r cyfranwyr drwy nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol gan gynnwys RNIB Cymru, Cyswllt Conwy a Scope.

## Fformat

**8.** Cynhaliwyd pedwar cyfarfod grŵp ffocws wyneb yn wyneb ac un cyfweliad wyneb yn wyneb.

**9.** Roedd fformat y sesiynau'n gymharol debyg, ond roeddent yn amrywio rhyw ychydig yn ôl anghenion penodol y cyfranwyr.

**10.** Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn sgil y trafodaethau. Mae nodiadau gair-am-air o bob sesiwn ar gael ar gais.

## Chwilio am gyflogaeth

**11.** Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn cytuno bod rhwystrau i waith cyflogedig i bobl anabl o'r dechrau'n deg yn y broses o chwilio am waith. Er bod y rhwystrau hynny'n niferus ac amrywiol, cyfranwyr a oedd wedi colli'u golwg ac ag anableddau dysgu a/neu anawsterau dysgu a roddodd rai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg.

> *"Cyn i chi hyd yn oed edrych ar yr hysbyseb swydd, cael mynediad at wefan yw'r mater anodd yn aml. Mae rhai yn well nag eraill. Felly, ar ôl cyrraedd rhai gwefannau, pan fyddwch chi'n pwyso ar 'fanyleb y swydd' ac mae'n mynd at PDF, yna nid yw hynny'n hygyrch. Hyd yn oed cyn i chi edrych ar hysbyseb swydd, mae'r rhwystrau hynny'n bodoli...* mae'n flinedig..." rydych chi'n defnyddio cymaint o egni meddyliol i ddarllen rhan o ddisgrifiad swydd hyd yn oed. . ."
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerffili*

> *"Yng Nghanolbarth Cymru yn arbennig, fel rhan o lawer iawn o hysbysebion swyddi – mae gyrru car yn hanfodol. Byddech yn meddwl y byddai hynny'n diystyru llawer o swyddi, ond nid yw'n gwneud hynny oherwydd gallwch wneud cais am yrrwr drwy broses 'Mynediad at Waith' a chael un drwy'r dull hwnnw. Ond yr iaith y mae hysbysebion swyddi yn ei defnyddio sy'n rhoi pobl oddi ar y trywydd ymgeisio ar unwaith."*
>
> ***Cyfrannwr grŵp ffocws, Powys***

**12.** Mae pob cam o'r broses ymgeisio am swydd yn creu heriau, ac mae rhai cyfranwyr hefyd wedi nodi bod diffyg mynediad at gyfweliadau yn broblem. Er bod y cynnydd o ran offer cyfathrebu ar-lein yn cael ei ystyried yn ffordd effeithiol o liniaru rhwystrau i gyflogaeth gan rai, roedd eraill yn awyddus i roi naws o'r cyd-destun y defnyddir yr adnoddau hynny ynddo.

**13.** Rhoddwyd un enghraifft gan gyfrannwr a rannodd brofiad unigolyn â oedd wedi colli ei olwg nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod o'r grŵp ffocws.

> *"Roedden nhw'n hollol dawel pan oedd o'n siarad. Mae'n rhaid eu bod nhw wedi bod yn nodio eu pennau ac yn gwenu...neu beidio. Ond aeth y cyfweliad cyfan heibio ac ar wahân i'r cwestiynau, nid oedd unrhyw giwiau clywadwy. Felly dywedodd y gofynnwyd iddo ar ddiwedd y cyfweliad sut yr oedd yn meddwl yr aeth hi, a dywedodd, nad oedd yn dda iawn yn ei farn ef, oherwydd nad oedd yn siŵr a oedd wedi ateb y cwestiynau. Fe ddywedon nhw na wnaethon nhw roi'r rôl iddo oherwydd roedd yn amlwg nad oedd ganddo hyder yn ei allu ei hun...ond roedd y cyfweliad yn gwbl anhygyrch iddo."*
>
> ***Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd***

**14.** Cyfeiriodd rhai cyfranwyr at gynllun 'Tic Dwbl' Llywodraeth y DU, a ddisodlwyd ers hynny gan y cynllun cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd, a holodd a oedd rhai cyflogwyr yn ddiffuant yn eu hymdrechion i recriwtio gweithlu amrywiol.

> *"Cefais wybod mewn un cyfweliad es i amdano, eu bod nhw ond wedi fy nghyfweld oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw dicio'r blwch. Mae goblygiadau ariannol hefyd, oherwydd bu'n rhaid imi gael tacsi i'r*

> *cyfweliad ac yn ôl. Roeddwn i'n ddyledus iddynt o £20. Pe bawn i'n gwybod fy mod yn gyfwelai symbolaidd yn unig, ni fyddwn wedi mynd amdani.*
>
> *Rydw i wedi cael cyfweliadau yr ydw i wedi teimlo eu bod wedi mynd yn dda, ac nad ydw i wedi cael y swydd, felly rydw i wedi gofyn am adborth. Maent wedi dweud, wel, gallaf roi rhywfaint o adborth answyddogol ichi, ond yr adborth answyddogol yw, na chawsoch y swydd oherwydd yr addasiadau rhesymol y byddai angen eu gwneud. Roedd llawer o'r swyddi hyn yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth, ac roedden nhw'n poeni y byddwn i'n dipyn o bwysau ariannol ar y cwmni. Wnes i erioed fynd â hynny ymhellach oherwydd maen nhw wedi bod yn ddigon caredig i roi rhywfaint o wybodaeth 'rhyngoch chi a mi', answyddogol i mi. Doeddwn i ddim eisiau cael rhywun i drwbwl am ddweud wrthyf yr hyn yr oeddwn wedi'i amau oedd y rheswm beth bynnag, ond ydy, mae'n beth iasoer clywed ei fod mewn gwirionedd mor wahaniaethol ag y byddech yn ei dybio."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Abertawe*

**15.** Codwyd pryderon gan rai cyfranwyr am yr amgylchedd gwaith adeiledig a'r effaith y gall dod o hyd i'r ffordd o gwmpas mewn gofod sy'n anaddas i'r rhai ag anableddau ar brydiau, ei chael ar benderfyniad unigolyn a ddylai wneud cais am rôl ai peidio.

> *"Pan ydw i'n chwilio am waith gwirfoddol neu waith rhan-amser, dw i'n edrych ar beth yw goblygiadau'r swydd. Mae angen i mi wybod pa fath o adeilad ydyw. Y rhan fwyaf o'r amser, nid yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Hyd yn oed os byddan nhw f'eisiau i ar gyfer swydd, alla i ddim ei chymryd. Dyna pam y gwnes i roi'r gorau i chwilio am swydd. Yr unig ffordd ymlaen ar gyfer fy sefyllfa i yw sefydlu fy musnes fy hun. Rhwng 2019 a 2021, y cyfan wnes i oedd gofyn am help. Dwi angen rhywfaint o gymorth. Ni allaf fynd o fudd-daliadau i swydd, oherwydd y tebygolrwydd yw, fy mod am golli'r swydd honno oherwydd fy anabledd. Rwy'n mynd i banig am y pethau hyn. Cyrhaeddais bwynt lle'r oedd fy iechyd meddwl yn gwaethygu, roeddwn mewn cadair olwyn. Nid oedd neb yno i'm cefnogi i."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*

## Datrysiadau

**16.** Cynigiwyd nifer o atebion i rai o'r materion a godwyd, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i gyflogwyr gael gwell dealltwriaeth o anghenion unigolyn a'r addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl.

**17.** Mae'n hollbwysig sicrhau bod disgrifiadau swydd, ffurflenni cais a gwefannau chwilio am waith yn gwbl hygyrch (gan gynnwys eu bod yn hawdd eu darllen, er enghraifft) i'r rhai ag amrywiaeth o anableddau.

> *“Pe bai rhagor o integreiddio gyda Mynediad at Waith yn ystod y cam ymgeisio gallai fod ffordd i gyflogwyr weithio gyda Mynediad at Waith bryd hynny yn hytrach na bod y cyfrifoldeb arnom ni i ofyn am yr addasiadau yn gyson. Pe bai system integredig well, ble y gallai'r cyflogwr fod wedi o leiaf ymgyfarwyddo â'r syniad o Fynediad at Waith eisoes, byddai hynny'n wych.”*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Powys*

**18.** I'r rhai y mae angen cymorth arnynt i lywio'r broses o chwilio am waith, esboniodd nifer o gyfranwyr y byddai hyfforddwyr swyddi, sydd â dealltwriaeth o anabledd, yn ddefnyddiol.

> *“Hyfforddwyr swyddi wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer anableddau penodol, gyda dealltwriaeth o anableddau dysgu a niwroamrywiaeth yn enwedig, gan fod llawer o bobl yn cael diagnosis. Gyda llawer o'r cynlluniau – y cynlluniau cymorth cyflogaeth fel Engage to Change, mae'n cefnogi pobl hyd at 25 mlwydd oed. Beth am 25 mlwydd oed a throsodd? Gallwn barhau i weithio tan oedran pensiwn. Mae hynny'n amser hir. . . Rwy'n byw ar fy mhen fy hun. Pe na bawn i'n gweithio, ni fyddwn yn cymysgu â phobl mewn gwirionedd, nac yn gweld pobl, nac yn mynd allan. Nid yw pobl yn sylweddoli, pan fyddwch mewn gwaith fod hyn yn helpu gyda'ch iechyd meddwl hefyd. Rydych chi'n cyfrannu at eich cymdeithas."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws, Ynys Môn*
>
> *“Roedd gen i hyfforddwr swydd a oedd yn anhygoel . . . Fe wnaethon ni bob math o bethau - sgiliau hyder, sgiliau cyfweliad, CVs, ffurflenni cais. Fe wnaeth hi fy helpu i ddod o hyd i waith gwirfoddoli yn 2016.”*

> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Conwy*

## Ymwybyddiaeth o anabledd

**19.** Mynegwyd safbwyntiau pendant, sef, er bod diffyg ymwybyddiaeth o anabledd ymhlith cyflogwyr, a chyfeiriwyd yn benodol at gyflogwyr yn y sector preifat, roedd hyn hefyd yn wir ymhlith sefydliadau sy'n gyfrifol am gefnogi pobl i ddod o hyd i waith.

> *"Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'r Ganolfan Waith oherwydd fy mod yn cael Credyd Cynhwysol ac rwy'n hawlio'r elfen 'gallu nad yw'n ymwneud â gwaith' hefyd, ond i mi nid oes cymorth ar gael mewn gwirionedd. Maen nhw'n dal i ofyn i mi fynd i'r Ganolfan Waith bob 2 – 3 mis. Dydw i ddim yn gwybod pam, oherwydd nid ydyn nhw wir yn fy helpu gydag unrhyw beth. Rwy'n eithaf annibynnol. Gallaf lenwi ffurflenni. Ond o ran pobl sy'n llai medrus na mi, does dim cefnogaeth, yn enwedig o gwmpas Ynys Môn. . . Rwy'n adnabod pobl eraill sy'n iau na fi, 18+, sy'n ceisio dod o hyd i waith. Nid yw cyflogwyr yn deall anabledd na chyflyrau iechyd meddwl. Mae'n fater o gael swydd sy'n addas ac sy'n cyd-fynd â'n cyflyrau iechyd hefyd."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws, Ynys Môn*

**20.** Roedd nifer o gyfranwyr wedi gofyn am gymorth gan y Ganolfan Waith yn y gorffennol, er eu bod yn feirniadol i raddau helaeth o'r cymorth a gynigiwyd a/neu a gafwyd. Roedd y profiadau a rannwyd oll yn negyddol ac roedd rhai pobl yn egluro ei bod yn ymddangos nad oes gan rai cynghorwyr Canolfannau Gwaith yr hyfforddiant sydd ei angen i gynghori pobl anabl sy'n chwilio am waith mewn modd priodol a sensitif.

> *"Fe es i i mewn a doedden nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud â mi mewn gwirionedd, felly fe wnaethant ddweud wrthyf am eistedd i lawr ar gadair ac eisteddodd fy mhartner yn fy ymyl. Dechreuodd yr unigolyn ofyn y cwestiynau hyn i mi ond nid oedd yn siarad â mi, roedd yn siarad â fy mhartner. Felly roeddwn i eisoes yn teimlo 'fel person a oedd ar y tu allan''. Roedd hyn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth. Dechreuon nhw siarad â fy mhartner a dweud - "mae'n sylweddoli bod angen iddo wneud cais am 30 awr yr wythnos ydy o? Dylai wneud cais am ESA (Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) yn*

> *lle (yr hyn yr oedd yn ei hawlio) oherwydd yn sgil hynny nid oes yn rhaid iddo fod wrthi'n chwilio am waith." Ond rwy'n unigolyn sy'n chwilio am waith ac rydw i eisiau cael swydd."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Pen-y-bont ar Ogwr*
>
> *"Weithiau nid yw'r Ganolfan Waith yn trafferthu i wirio i ble maent yn eich anfon. Maen nhw'n eich gosod chi mewn siop elusen ac fe allai fod yn anaddas."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Conwy*
>
> *"Mae'n fater o ddiffyg meddwl a diffyg gofal yn yr hyn maen nhw'n ei wneud. Daeth hyn i'r amlwg i mi pan ddywedodd aelod o staff y Ganolfan Waith wrthyf "mae'n rhaid ichi fynd am gyfweliad gorfodol". Byddi di'n colli dy arian os na fyddi di'n mynd am y cyfweliad hwn. Gofynnais, 'Beth yw'r swydd?'. Dywedwyd wrthyf, mai gyrru ar gyfer Stage Coach oedd y swydd. Roeddwn i'n eistedd yno gyda chi tywys wrth fy ochr."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*

## Datrysiadau

**21.** Yn ôl cyfranwyr, mae angen gwreiddio newid dwfn o ran agweddau a diwylliant y gweithle. Mae newid agweddau a chynyddu ymwybyddiaeth o anabledd yn heriol. Mae angen i unrhyw newidiadau fod yn ystyrlon, ac roedd y cyfranwyr yn egluro bod hon yn broses, sy'n gofyn am ddyfalbarhad.

> *"Sut mae mynd ati i newid diwylliant? Mae angen hyfforddiant arnom ar agweddau. Nid yw'n ymwneud â hygyrchedd yn unig. Mae'n ymwneud â pha arddull siarad sy'n dderbyniol a beth nad yw'n dderbyniol. Sut ddylem ni siarad â phobl am eu hanabledd? Gofynnwch iddyn nhw. Mae angen inni ystyried beth y gallai'r person hwnnw fod wedi gorfod mynd drwyddo i gyrraedd y cam hwn. Nid yw'n ymwneud â hygyrchedd yn unig ond ag agweddau hefyd."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Sir Fynwy*
>
> *"Efallai y dylid ymgorffori rhyw lefel o ymwybyddiaeth o anabledd ym mhob cyfweliad am swydd, felly pan fydd pobl yn cael eu cyflogi maent yn ymwybodol bod angen iddynt drin pawb yr un fath. Ni allaf*

> *gofio unrhyw un yn gwneud unrhyw beth penodol am bobl y maent yn gweithio gyda nhw neu am bobl ag anabledd. Mae angen ymgorffori'r agwedd honno i raddau helaethach."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Casnewydd*

## Gwaith a budd-daliadau

**22.** Roedd graddau amrywiol o ddealltwriaeth ymhlith cyfranwyr ynghylch hawl i fudd-daliadau a sut y gallai gwaith â thâl effeithio ar yr hawl honno.

> *"Fy rhwystr mwyaf i waith yw'r system budd-daliadau. Oherwydd fy mod i ar hen, hen fath o lwfans cyflogaeth a chymorth ac rydw i yn y grŵp cymorth felly rydw i'n cael llonydd. A dwi hefyd yn cael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). O fynd drwy fanteision y ddwy elfen hynny a phrosesau gwahanol, Roedd y ddau beth yn peri straen. Nid wyf yn gweld unrhyw reswm pam y dylai fy mudd-daliadau ddod i ben, oherwydd mae gennyf nam ar fy ngolwg. "Dyw hwnna ddim yn mynd i ddigwydd. Rwy'n gwybod na fyddwn i'n cael mynd ymlaen i gael Credyd Cynhwysol oherwydd mae gen i gyfran fach yn nhŷ perthynas. Mae hynny'n cael ei drin fel ail ased. Felly yn amlwg, ni allaf werthu'r tŷ. Rwy'n gyndyn iawn i roi fy mhen uwchben y parapet a chymryd unrhyw risg. Gwn fod yna gynllun gwaith a ganiateir ar gael gyda'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Ond mae'n gyfyngedig iawn. Mae'n £85 yr wythnos, sy'n sarhaus. Rydw i mor bryderus, pe bawn i'n dilyn llwybr gwaith a ganiateir, ac yn dod o hyd i swydd y gallwn i ei gwneud, y sgil-effaith – oddi wrth y bobl budd-daliadau, fyddai dweud, 'wel, gallwch chi weithio'. Rydyn ni'n mynd i ostwng lefel eich Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), a fyddai'n drychinebus yn ariannol i mi. Ac rydyn ni'n mynd i atal eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. A hyd yn oed pe bawn i'n apelio ni fyddwn byth yn gallu mynd yn ôl i ble rydw i nawr oherwydd nid yw'r budd-dal hwnnw'n bodoli ar gyfer hawlwyr newydd, felly nid yw'n werth y risg i mi. Byddwn wrth fy modd yn gweithio ond nid yw'n werth y risg. Does gen i ddim person arall ag incwm arall i ddibynnu arno."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Abertawe*

**23.** Roedd rhai cyfranwyr yn rhannu eu pryder ynghylch colli eu hawl i fudd-dal yn ei gyfanrwydd pe baent am sicrhau unrhyw fath o waith cyflogedig. Yn

benodol, roedd cyfranwyr ag anableddau dysgu a/neu anawsterau dysgu yn aml yn dibynnu ar aelodau'r teulu i'w cefnogi i wneud penderfyniadau ariannol. I'r person anabl, roedd aelodau'r teulu hefyd yn aml yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth am fudd-daliadau, ond nid oedd hynny bob amser yn golygu bod y cyngor a'r wybodaeth yn gywir.

> *“Hoffwn i gael swydd. Beth sy'n gwneud hynny’n anodd? Y budd-daliadau dwi arnynt. Os caf swydd byddaf yn colli fy mudd-daliadau.”*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Conwy*

## Gwaith taledig yn erbyn gwaith di-dâl

**24.** Roedd gan nifer sylweddol o gyfranwyr brofiad cyfredol neu flaenorol o wirfoddoli. Roedd y rolau hyn yn amrywio ac yn cynnwys rolau manwerthu mewn siopau elusen, gwirfoddoli mewn gorsaf radio leol a chyda sefydliadau fel y Sgowtiaid a’r Girls Friendly Society.

**25.** Roedd y rhan fwyaf o’r cyfranwyr sydd â phrofiad o wirfoddoli yn siarad yn gadarnhaol am y rolau hynny, gan egluro ei fod yn caniatáu iddynt ddysgu sgiliau newydd, magu hyder a chefnogi eu hiechyd meddwl a’u lles.

> *“Oherwydd nad oes yna swyddi cyflogedig, mae pobl naill ai'n dod o hyd i waith gwirfoddol neu'n dod o hyd i bethau eraill i'w gwneud i gael boddhad.”*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Conwy*
>
> *“Rydw i wir yn mwynhau gwaith gwirfoddol. Cyn i mi gael fy swydd gyda Cyswllt Conwy doeddwn i ddim wedi bod yn gweithio ers 5 mlynedd. Rwy'n teimlo, yn enwedig wrth weithio i Gyswllt Conwy y flwyddyn ddiwethaf, fy mod wedi cwrdd â ffrindiau newydd, ac wedi magu rhagor o hyder. Rwy'n teimlo fy mod yn cyfrannu at gymdeithas. Rwy’n rhoi rhywbeth yn ôl ac rwy’n helpu i addysgu pobl am y gwiriadau iechyd a sut i ymdrin â phobl ag anableddau dysgu, gan fod hynny’n parhau’n broblem fawr.”*
>
> *Aelod o grŵp ffocws, Ynys Môn*

**26.** Fodd bynnag, roedd llawer o’r cyfranwyr yn teimlo’n rhwystredig ynghylch y diffyg cyfleoedd sydd o ran gwaith cyflogedig. I'r rhai sydd mewn gwaith

cyflogedig, roedd rhai'n teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan natur sylfaenol y tasgau a roddwyd iddynt a'r diffyg cyfleoedd i ddatblygu yn eu gwaith.

### Datrysiadau

**27.** Roedd rhai cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio, er ei bod yn bwysig cefnogi pobl anabl i gael gwaith cyflogedig, mae angen eu cefnogi hefyd i symud ymlaen o fewn y rolau hynny.

> *"Rwy'n gwybod ein bod wedi siarad llawer am gael mynediad at waith a chael gwaith cyflogedig. Mae ein hymchwil wedi dangos, pan fydd pobl yn sicrhau cyflogaeth, nad ydynt yn teimlo bod cyflogwyr yn gweld y gallant wneud cynnydd yn y gweithle. Hyd yn oed os yw'r addasiadau rhesymol wedi'u gwneud, mae'n ymwneud â chefnogi pobl i gael rolau uwch. Pan symudodd un o'n hymgyrchwyr adrannau yn ddiweddar, ar sail secondiad rhan-amser, roedd ganddynt gefnogaeth i arwain ar brosiectau."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*
>
> *"Roedden nhw eisiau gweinyddwr. . . Roeddwn i yno am 12 mlynedd. Yn agos i'r diwedd canfûm nad oedd llawer yno i mi. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nefnyddio ar gyfer mynd allan i'r siopau ar eu cyfer. Roeddwn i'n teimlo bod gen i'r profiad i wneud mwy na hynny."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Conwy*

## Addasiadau rhesymol

**28.** Roedd profiadau cyflogwyr o ran gwneud addasiadau rhesymol yn amrywio. Roedd rhai cyfranwyr yn awyddus i rannu profiadau cadarnhaol o'u cyflogwr o ran gweithredu addasiadau rhesymol, tra bod eraill wedi cael profiadau hynod gyferbyniol.

> *"Unrhyw beth roeddwn i eisiau, bydden nhw'n ei wneud. Fe wnaethon nhw fy symud er mwyn i mi allu clywed pawb, ac fe wnaethon nhw addasu fy oriau i fy siwtio i, felly roeddwn i'n gweithio bob yn ail ddiwrnod. Fe wnes i leihau fy oriau gwaith o weithio amser llawn i weithio tri diwrnod yr wythnos. Roeddwn i'n gweithio dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener ac yn cael diwrnod i ffwrdd bob yn ail er mwyn rheoli'r blinder. Fe wnaethon nhw fy anfon at feddyg iechyd*

> *galwedigaethol hefyd, i gael adroddiad. O'r blaen, roeddwn i'n gweithio fel rheolwr mewn archfarchnad, a dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi cael yr un peth yno."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Casnewydd*
>
> *"Pan oeddwn i'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), roedden nhw'n wych. Gallech gael ci tywys, byddem yn cael unrhyw offer ar amser. Aethant y tu hwnt i'r gofynion o ran offer a dweud y gwir. Roedd gen i fysellfwrdd arbennig, sgrin fawr, testun Zoom, Dragon Speak[1] i mewn i'r system ac roeddwn wedi fy hyfforddi'n dda ac roedd gen i fentor am gyfnod. . . Yn [mudiad dienw], ni chawsom ein hyfforddi mewn gwirionedd. Daeth y bysellfwrdd yn hwyr. Yn y diwedd dywedodd fy rheolwr wrthyf nad oeddwn yn perfformio ar yr un cyflymder â fy nghyfoedion. Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd llawer o gyfrifoldebau oddi arnaf oherwydd fy anabledd, ond roedd [sefydliad dienw] yn disgwyl i mi allu cyflawni fy swydd i'r un graddau â'm cyfoedion."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*
>
> *"Rwy'n gwneud cais am swyddi ond weithiau nid yw'r offer ar gael yno, ac mae angen cymorth a hyfforddiant arnaf, felly rwyf wedi edrych ar hunangyflogaeth."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*

**29.** Roedd rhai cyfranwyr yn nodi barn bod rhai sectorau yn fwy parod i dderbyn ceisiadau am addasiadau rhesymol nag eraill. O'r herwydd, roedd rhai'n teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan natur y rolau yr oeddent yn gallu gwneud cais amdanynt, oherwydd eu bod yn ofni na fyddai eu darpar gyflogwr yn gallu bodloni'r addasiadau sydd eu hangen arnynt.

> *"Mae'r trydydd sector yn dda am wneud y pethau hyn, ond nid yw'r sector preifat, er elw, cystal. Bydd pobl sydd wedi colli eu golwg yn tueddu i symud tuag at sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Mae'n drueni bod hynny'n wir, ond mae hyn oherwydd eu bod yn eich deall chi'n*

[1] Meddalwedd adnabod lleferydd yw Dragon sy'n gweithio drwy wrando arnoch chi'n siarad a defnyddio deallusrwydd artiffisial i drawsgrifio'r geiriau ar eich rhan.

> *well . . . Mae'r trydydd sector yn cymryd llawer o'r cyfrifoldeb ac yn llenwi cynifer o fylchau."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Powys*

### Datrysiadau

**30.** Roedd rhai cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio y gall addasiadau rhesymol amrywio, yn dibynnu ar natur anabledd unigolyn. O'r herwydd, ni ddylai cyflogwyr ystyried bod yr addasiadau hyn yn 'ateb' parhaol, ond yn hytrach yn broses sy'n gofyn am fonitro, a ble y bo'n briodol, am addasu.

> *"Mae addasiadau rhesymol yn rhywbeth sy'n esblygu'n gyson. Ar wahanol adegau o'r flwyddyn mae angen addasiadau gwahanol arnaf. Cyn Covid, pe bawn yn gweithio yn y swyddfa, fy addasiad rhesymol fyddai, byddwn yn gadael am tua 3.15 - 3.30pm i fod adref cyn iddi dywyllu, oherwydd bod fy ngolwg yn waeth yn y nos."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerffili*
>
> *"Pan dwi'n deffro, mae'n rhaid i mi ddarganfod sut ddiwrnod rwyf am ei gael gyda'r cam cyntaf dwi'n ei gymryd. Os yw fy nghoes yn teimlo fel ei bod ar fin ysigo, gwn ei bod yn ddiwrnod cadair olwyn."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerdydd*

## Trafnidiaeth

**31.** Rhannodd cyfranwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws amrywiaeth o broblemau yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a gwaith cyflogedig a neu waith gwirfoddol. Er nad oedd problemau, fel cost trafnidiaeth gyhoeddus a pha mor ddibynadwy yw, o reidrwydd, yn unigryw i bobl anabl, roedd y problemau hynny'n cyflwyno heriau gwahanol.

> *"Bu'n rhaid i mi ildio fy nhrwydded yrru o ganlyniad i'r llawdriniaeth. Roedd y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn arswydus i mi, i geisio cael bws o Malpas i ganol tref Casnewydd . . . Hwn oedd y peth anoddaf i mi, i geisio cyrraedd yno ar amser, felly fe wnes i feicio i'r gwaith yn y diwedd. Roedd hynny'n beryglus mae'n siwr, ond doedd*

> *dim ffordd arall o gyrraedd yno ar amser, felly dyna oedd y rhwystr mwyaf i mi mae'n debyg, heblaw'r cyflogwr ei hun."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Casnewydd*

**32.** Er bod rhai cyfranwyr yn cydnabod bod rhai dulliau posibl ar gael i gefnogi pobl anabl gyda materion yn ymwneud â hygyrchedd y seilwaith trafnidiaeth, nid yw'r rhain bob amser yn addas i'r diben.

> *"Mae yna rai gorsafoedd trên yng Nghaerdydd nad oes ganddynt blatfformau hygyrch o gwbl ar hyn o bryd. Yr hyn y gallwch ei wneud yw cysylltu â rhif ffôn arbennig a bydd Trafnidiaeth Cymru yn trefnu i chi gael tacsi i orsaf sydd â phlatfform hygyrch. Fodd bynnag, faint o dacsis sydd ar gael i bobl na allant drosglwyddo i orsaf arall ac sydd angen gyrru i gyrraedd gyda'r gadair olwyn yn y gist? Nid oes llawer. Felly maen nhw'n rhoi'r opsiwn hwn, nad yw'n addas at y diben mewn gwirionedd, i chi. Mae'n cynnig gobaith ffug. Os gallwch chi drosglwyddo, gwych, ond beth os na allwch chi drosglwyddo i orsaf arall?"*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Sir Fynwy*

## Mynediad at Waith

**33.** Roedd beirniadaeth gref ymhlith y cyfranwyr am effeithiolrwydd y cynllun Mynediad at Waith, gyda'r profiadau y soniwyd amdanynt oll yn gwbl negyddol.

> *"I'r ychydig gyflogwyr rydw i wedi dod ar eu traws sydd eisoes yn gwybod ei fod yn bodoli, rydw i wedi cael cyflogwyr yn dweud eu bod nhw wedi cael profiad mor wael gyda Mynediad at Waith nes mae' nhw wedi troi oddi wrth y system honno.*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Powys*

**34.** Roedd y feirniadaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar dair agwedd. Yn gyntaf, mae'r amser y mae'n ei gymryd i lywio drwy'r cynllun yn rhy hir a beichus. Yn ail, y cyfrifoldeb a roddir ar yr ymgeisydd i egluro pa addasiadau sydd eu hangen arnynt, er gwaetha'r ffaith nad yw'r ymgeisydd, o bosibl, yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael/neu'n addas ar ei gyfer.

> *"Defnyddiais Mynediad at Waith ym mis Ionawr a phan wnes i gais, doeddwn i ddim yn gwybod dim amdano a dweud y gwir. . . Doeddwn i ddim yn gwybod pa addasiadau oedd eu hangen arnaf oherwydd doeddwn i erioed wedi gwneud hyn o'r blaen, ac nid oeddwn yn gwybod beth oedd ar gael . . . Wedyn cefais wraig o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn fy ffonio, a gofynnodd beth oeddwn ei eisiau. Dywedais nad oeddwn yn gwybod mewn gwirionedd. Dywedodd ei bod yn gyflymach os ydych chi'n dweud wrthyf fi beth sydd ei eisiau arnoch chi. Dywedais nad oeddwn yn gwybod, darllenydd sgrin efallai? A fyddai angen hyfforddiant arnaf i ddefnyddio JAWS[2] oherwydd tydw i erioed wedi ei ddefnyddio o'r blaen? Roedd hi'n nodi'r holl bethau hyn ar bapur, ond doeddwn i ddim yn gwybod a oedd yn mynd i fy helpu ai peidio. Rydw i nawr yn edrych yn ôl ac yn meddwl y gallwn fod angen hyn neu'r llall, ond nid wyf am fynd drwy'r broses gyfan honno eto oherwydd mae'n cymryd cymaint o amser."*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Pen-y-bont ar Ogwr*

**35.** Yn olaf, roedd rhai'n feirniadol o'r diffyg cysondeb o ran y cymorth a ddarparwyd, ac roedd rhai cynghorwyr yn fwy effeithiol nag eraill.

> *"Rwy'n mynd drwy ail asesiad ar hyn o bryd ac mae'n wahanol iawn i fy asesiad cyntaf dair blynedd yn ôl. . . Roedd y gweithiwr achos cyntaf a gefais, yn wych. Gofynnodd i mi am fy nam ar y golwg, roedd eisiau gwybod cymaint ag y gallai. Roedd yn chwilfrydig iawn ac yn rhagweithiol. Nid yw fy ngweithiwr achos presennol eisiau cyfathrebu ar y ffôn. Nid hyn yw ei ddewis ef yn bersonol, felly dim ond drwy e-bost yr ydym yn cyfathrebu, ac mae cymaint yn mynd ar goll wrth wneud hynny . . . Dywedodd na all fy ffonio gan na all warantu y byddai ar gael er iddo bennu amser neilltuol i ffonio. Mae hyn oherwydd y llwyth gwaith sydd ganddo. Mae ceisio ymdrin â hynny, gyda swydd amser llawn, yn gallu bod yn straen. Rwy'n galw hyn yn 'waith gweinyddu anabledd'!"*
>
> *Cyfrannwr grŵp ffocws, Powys*

[2] Darllenydd sgrin yw JAWS a ddatblygwyd ar gyfer defnyddwyr cyfrifiaduron y mae eu golwg yn eu hatal rhag gweld cynnwys sgrin neu lywio gyda llygoden.

### Datrysiadau

**36.** Ar wahân i'r angen i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn gyson ac yn llai beichus ar gyfer y sawl sy'n gwneu cais, roedd nifer o'r cyfranwyr yn cytuno bod angen rhagor o arweiniad a rhagor o ymwybyddiaeth o'r cynllun.

> *"Ychydig iawn o arweiniad sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais am y Cynllun Mynediad at Waith, ar wahân i'r meini prawf cymhwyster. Mae'n anodd iawn darganfod pethau fel sut i lenwi ffurflen, sut i reoli rhywun, beth sy'n digwydd os ydych chi'n cymryd rhywun fel eich Cynorthwyydd Personol ac nad ydyn nhw'n addas ar gyfer y swydd, a sut ydych chi'n mynd ati i ddiswyddo rhywun."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws, Powys*

## Y dyfodol

**37.** Yn ogystal â'r newid diwylliannol sydd ei angen i sicrhau bod pobl anabl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, roedd rhai cyfranwyr a gymerodd ran mewn cyfarfod grŵp ffocws a drefnwyd gan RNIB Cymru yn awyddus i edrych ymlaen ymhellach.

> *"Rydym yn siarad llawer am gael pobl ddall a rhannol ddall i gwrdd â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae angen i ni newid hyn, i mai nhw sy'n gwneud y penderfyniadau. Dyna'r cam nesaf. Os ydym ni i gyd yn y trydydd sector, nid ydym yn symud i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Nid yw'n ymddangos bod y swyddi hynny yno, nid yw'n ymddangos bod dilyniant yn hyn o beth.. Sut mae cael pobl â phrofiad o fyw i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau? "Allwch chi ddim bod yr hyn na allwch chi ei weld." Fy mhryder i yw bod y trydydd sector bob amser yn cynnal pethau."*
>
> *"Peth arall i sôn amdano yw dyfodol Cymru a setiau sgiliau'r dyfodol. Erbyn 2050 byddwn yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl â nam ar eu golwg. Hefyd bydd newid sylweddol o ran y math o swyddi sydd yng Nghymru. Bydd rhagor o swyddi gwyrdd. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer y newidiadau hynny? Bydd angen i genedlaethau hŷn ailhyfforddi. Pa gefnogaeth sydd i hynny? Os caiff y swyddi newydd hyn eu creu, mae angen eu dylunio gyda phobl anabl mewn golwg o'r dechrau."*

*Cyfrannwr grŵp ffocws, Caerffili*